TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Drone Flying Masterclass

Yn gryno

Mae galw mawr am weithredwyr dronau. Gyda thechnoleg mor arbennig ar gael am brisiau fforddiadwy, mae'r diwydiannau creadigol yn manteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio dronau fel rhan o'r broses gynhyrchu.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

Unrhyw un sydd â diddordeb mewn fideograffeg, ffotograffiaeth a gweithredu dronau.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs hwn yn cynnig cyfle unigryw i astudio'r canlynol:

Pa bryd y dylid defnyddio drôn - fel rhan o'r broses gynhyrchu, a'u cyfyngiadau.

Symudiad a thechnegau dronau - sut i symud eich drôn ac uchafu ei alluoedd.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynllunio'r saethiad o'r ddaear i'r awyr - sut i greu deunyddiau cyn-cynhyrchu effeithiol a deall gofynion cyfarwyddwr neu D.O.P.

Awgrymiadau ynglyn â sut i gael y lleoliad saethu cywir a chael cipolwg ar ddewis yr onglau cywir; lle i sefyll; sut i gyfathrebu gydag eraill ar leoliad (os yn briodol), a sut i gyflawni eich gwaith yn ddiogel yn unol â'r rheoliadau CAA.

Dewis y cyfarpar cywir - dod o hyd i gyfarpar a fydd fwyaf priodol i'r swydd a'r drôn cywir i chi.

Paratoi i olygu - ystyriwch sut i gasglu'r recordiad cywir ar gyfer ôl-gynhyrchu a darparu cyfarwyddyd ar yr hyn sy'n ofynnol i olygu'n llwyddiannus.

Bydd y cwrs yn gyfuniad o seminarau damcaniaethol a chymwysiadau ymarferol (os yw'r tywydd yn caniatáu). Yn ogystal, bydd gennych hawl i ddefnyddio stiwdio ac ystafelloedd golygu o'r radd flaenaf.

Gofynion Mynediad

Mae diddordeb mewn dronau a dod yn weithredwr medrus yn hanfodol. Cynghorir chi i ddod â'r canlynol efo chi:

Eich drôn
Batris wedi'u gwefru'n llawn (a gwefrwr)
Camera/camerâu eich drôn os nad yw wedi'i ymgorffori yn y system

Gwybodaeth Ychwanegol

Gwisgwch ddillad sy'n addas i'r tymor (yn cynnwys esgidiau addas) a phâr o sbectols haul pan fyddwch ar leoliad.

Bydd cinio a lluniaeth ysgafn ar gael yn yr ystafell grwp.

Ffioedd cwrs: £295.